

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Stryd yr
Eglwys, Caernarfon

Dyddiad arolygu: 13 Tachwedd
2018

Dyddiad cyhoeddi: 14 Chwefror
2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	21
4.	Beth nesaf?	24
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	26
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	27
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	28
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	29

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.

Ein blaenoriaethau

Trwy ein gwaith ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Stryd yr Eglwys yn 10 Stryd yr Eglwys, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SW ar 13 Tachwedd 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod Practis Deintyddol Stryd yr Eglwys yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion. Mae gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Gwelsom dystiolaeth fod contractau cynnal a chadw amrywiol ar waith er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd a'r cyfleusterau'n ddiogel ac mewn cyflwr da. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod angen atgyweirio ac uwchraddio'r holl gyfleusterau clinigol.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddwyd digon o wybodaeth i gleifion i'w galluogi i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth a gwelsom dystiolaeth fod cleifion yn fodlon ar y driniaeth a'r gwasanaeth a ddarperir
- Gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda a bod systemau effeithiol ar waith i gefnogi rheolwyr ac arweinwyr y practis yn gyffredinol
- Roedd y staff yn ymddangos yn hapus iawn yn eu rolau, roeddent yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n fedrus ac roedd ganddynt ymrwymiad cryf i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da
- Roedd trefniadau priodol ar waith i ddefnyddio offer pelydr-x yn ddiogel
- Cofnodion o safon dda iawn.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen atgyweirio ac uwchraddio'r ardaloedd clinigol

- Sicrhau bod yr awtoclaf yn cael ei brofi gan ddefnyddio stribedi TST ¹ yng nghylchred cyntaf y dydd
- Cynnal system gadarnach o gofnodi dyddiad dod i ben offer i'w defnyddio mewn argyfwng
- Cynnal archwiliadau rheolaidd o ddyddiadau dod i ben deunyddiau sy'n cael eu storio mewn droriau yn y deintyddfeydd a'r ystafell stoc.

¹Mae'r term TST yn fyfodd o Time/Steam/Temperature (Amser/Stêm/Tymheredd), y paramedrau hanfodol ar gyfer cylchred sterileiddio.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Deintyddol Stryd yr Eglwys yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Caernarfon.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys dau ddeintydd, un hylenydd, dwy nyrs ddeintyddol, derbynnydd a rheolwr practis.

Mae'r practis yn darparu amrywiaeth o'r canlynol:

- Gwasanaeth deintyddol cyffredinol preifat
- Triniaeth gosmetig
- Mewnblaniadau
- Triniaeth 'smiles' chwe mis.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (Ile'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod Practis Deintyddol Stryd yr Eglwys yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom fod y cleifion yn hapus iawn â'r gwasanaeth.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir.

Cawsom gyfanswm o 41 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y mwyafrif o'r holiaduron a gwblhawyd gan gleifion a oedd wedi bod yn gleifion yn y practis ers mwy na dwy flynedd.

Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan. Dywedodd bron pob claf a gwblhaodd holiadur fod y gofal a'r driniaeth a ddarperir yn ardderchog.

Ymhlith y sylwadau a gafwyd gan gleifion ar yr holiaduron mae'r canlynol:

"Rhagorol bob amser a chyda gwên"

"Hapus iawn â safon uchel y gwasanaeth"

"Mae lefel y gwasanaeth wedi bod yn gyfeillgar ac yn broffesiynol bob amser."

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd digon o wybodaeth bwrpasol ar gael am hybu iechyd deintyddol yn y dderbynfa a'r ardal aros, a oedd yn golygu y gallai'r cleifion gael gwybodaeth a allai eu helpu i ofalu am iechyd y geg. Roedd posterï a thafleuni gwybodaeth amrywiol yn cael eu harddangos a oedd yn rhoi ystod o wybodaeth i gleifion am y practis deintyddol ac iechyd y geg.

Yn ddieithriad, cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Nodwyd bod gwybodaeth am brisiau ar gael wrth ddesg y dderbynfa a'r ystafell aros a oedd yn golygu y gallai cleifion gael gwybodaeth am gost bosibl eu triniaeth.

Roedd arwydd 'Dim Smygu' i'w weld ger y brif fynedfa a oedd yn cadarnhau bod pwyslais yn cael ei roi ar gydymffurfio â deddfwriaeth mangreoedd di-fwg².

Gofal gydag urddas

Yn ddieithriad, roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn eu bod wedi cael eu trin â pharch wrth ymweld â'r practis. Dywedodd un claf wrthym:

“Gwasanaeth grêt, cyfeillgar a chroesawgar bob amser”

Roedd gan y practis drefniadau ar waith i ddiogelu preifatrwydd cleifion, gan gynnwys ardaloedd lle gallai cleifion gael sgysiau preifat â'r staff. Roedd galwadau ffôn hefyd yn cael eu hateb yn breifat, allan o glyw cleifion.

Nodwyd bod dogfen 9 Egwyddorion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC)³ ar gael i gleifion ar gais yn yr ardal aros. Mae'r egwyddorion hyn yn gymwys i bob aelod o'r tîm deintyddol ac yn nodi'r hyn y gall cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol.

Gwybodaeth i gleifion

Lle y bo'n briodol, dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau a wnaed am eu triniaeth (cymaint ag yr oeddent am fod yn rhan o hynny) a gwnaethant gadarnhau eu bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau a oedd ar gael.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion wrthym eu bod wedi cael eu hysbysu am gost unrhyw driniaeth bob amser cyn iddynt gael y driniaeth.

² Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2015 - Cafodd deddfwriaeth i wahardd smygu mewn mannau cyhoeddus caeedig ei chyflwyno yn 2007 er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag mwg ail-law.

³ <https://standards.gdc-uk.org/>

Yn ogystal, roedd tystiolaeth bod cynlluniau ac opsiynau triniaeth wedi'u nodi mewn sampl o gofnodion cleifion a welwyd gennym. O ganlyniad, roedd cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis ar gael ar ei wefan ac wedi'i harddangos yn y dderbynfa a'r ardal aros hefyd. Roedd gan y practis ei daflen wybodaeth ei hun i gleifion a oedd ar gael yn yr ardal aros. Roedd y daflen yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion Cymraeg a gwblhaodd holiadur wrthym mai dim ond weithiau y gallent siarad Cymraeg â'r staff. Dywedodd pob un o'r cleifion di-Gymraeg a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Gall rhai aelodau o staff y practis gyfathrebu'n ddwyieithog â chleifion. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd hyn yn cael ei hysbysebu yn yr amgylchedd ffisegol. Gwnaethom gynghori'r practis i ystyried cyflwyno system fel bod y cleifion yn gallu adnabod y staff a oedd yn siarad Cymraeg, a chytunodd i wneud hynny.

Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn ffordd amserol bob amser a gwelsom hyn yn ystod ein harolygiad. Disgrifiodd y staff broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi mewn perthynas ag amser eu hapwyntiad.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Roedd rhif ffôn brys ar gyfer y gwasanaeth y tu allan i oriau ar gael i'r cleifion pe byddai angen triniaeth ddeintyddol frys y tu allan i oriau arnynt. Roedd y rhif ffôn wedi'i arddangos ger y brif fynedfa, roedd i'w glywed ar neges y peiriant ateb, yn y daflen wybodaeth i gleifion, ar y cyfryngau cymdeithasol ac roedd i'w weld ar wefan y practis.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn ei chael hi'n eithaf hawdd neu'n hawdd iawn cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwelsom sampl o gofnodion cleifion ac roeddent o ansawdd da iawn. Gwelsom dystiolaeth fod opsiynau triniaeth wedi'u cofnodi a gofynnwyd i bob claf am gydsyniad i driniaeth bob amser.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y tîm clinigol yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth. Gwelsom fod hanes meddygol y cleifion yn cael ei ddiweddarau gan ddefnyddio clinipad.⁴ Gwnaethom gydnabod fod hwn yn arfer da.

Roedd y triniaethau a'r gwasanaethau a gynigir gan y practis yn cyd-fynd â'r datganiad o ddiben.

Hawliau pobl

Nodwyd bod gan y practis bolisi cyfle cyfartal penodol ar waith. O ganlyniad, roedd y practis yn ymrwymedig i sicrhau bod pawb yn cael cynnig yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg.

Mae grisiau serth yn arwain at fynedfa'r practis. Dywedodd y practis wrthym fod pob ymdrech wedi'i wneud i ddarparu mynediad i bobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn. Fodd bynnag, oherwydd lleoliad y grisiau, nid yw'n bosibl gosod ramp. Mae canllaw ar gael i gynorthwyo'r cleifion sydd ag anawsterau symudedd.

Gwrando a dysgu o adborth

Gwelsom fod gan y practis bolisi gwyno ysgrifenedig. Roedd y gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn gwneud cwyn neu godi pryder wedi'u harddangos yn amlwg yn y dderbynfa a'r ardal aros. Roedd y manylion wedi'u cynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion hefyd.

Gwelsom dystiolaeth fod gan y practis systemau i gofnodi unrhyw gwynion a dderbynnir, eu monitro ac ymateb iddynt. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd y

⁴ <https://softwareofexcellence.co.uk/solutions/clinipad/>

practis wedi cael unrhyw gwynion ffurfiol ers i'r perchennog presennol ei agor yn ystod haf 2015.

Gwnaethom drafod system y practis i gael adborth gan gleifion; mae'r practis yn gwneud hyn drwy ddarparu holiaduron i gleifion yn yr ardal aros. Ar ôl dadansoddi'r adborth, caiff y manylion eu trafod â'r tîm deintyddol a gwelsom fod canlyniadau'r arolwg diweddaraf yn hynod o gadarnhaol. Dywedodd y practis wrthym ei fod yn bwriadu arddangos dadansoddiad o'r adborth gan gleifion yn yr ardal aros. Bydd hyn yn dangos i gleifion sy'n ymweld â'r practis fod eu hadborth wedi'i ystyried a bod y practis wedi gweithredu arno er mwyn dysgu a gwella'r gwasanaeth.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd y cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

Gwelsom dystiolaeth fod contractau cynnal a chadw amrywiol ar waith er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd a'r cyfleusterau'n ddiogel ac mewn cyflwr da.

Fodd bynnag, nodwyd gennym fod angen adnewyddu ac uwchraddio'r ardaloedd clinigol.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, nodwyd gennym fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef.

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn lân iawn.

Roedd toiledau ar gael at ddefnydd y staff a'r cleifion. Roedd arwyddion clir i'r cyfleusterau ac roeddent yn ymddangos yn lân iawn.

Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn amrywiol leoliadau yn y practis, a gwelsom fod yr offer hwnnw wedi'i wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd y staff yn y practis wedi cael hyfforddiant tân. Cawsom sicrwydd llafar y bydd bob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant erbyn diwedd mis Tachwedd. Cawsom gadarnhad yn dilyn yr arolygiad fod pob aelod o'r staff yn y practis wedi cael hyfforddiant tân.

Roedd allanfeydd argyfwng i'w gweld, ac roedd poster Iechyd a Diogelwch yn cael ei arddangos yn y practis.

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau, yn ogystal ag asesiadau risg amrywiol ar waith. Roedd pob asesiad risg yn gyfredol a gwelsom dystiolaeth eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Roedd gan y practis bolisi dadebru ar waith a gwelsom fod y staff wedi cael hyfforddiant dadebru cardio-anadlol (CPR)/dadebru brys.

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau pwrpasol i lanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Fodd bynnag, nodwyd bod llif y gwaith yn wael ac yn rhwystro cydymffurfriad llawn â WHTM 01-05. Nodwyd hefyd bod angen adnewyddu ac uwchraddio'r ystafell ddihalogi, yn ogystal â chyfleusterau'r ddwy ddeintyddfa.

Gwnaethom drafod ein harsylwadau gyda'r prif ddeintydd a ddywedodd wrthym fod cynlluniau ar waith i ymestyn y practis i gynnwys deintyddfeydd ychwanegol ac i adnewyddu ac uwchraddio'r ardaloedd clinigol yn llwyr. Os na chaiff y cynlluniau i ymestyn y practis eu cyflawni, cadarnhawyd y byddai'r cyfleusterau clinigol presennol yn cael eu hadnewyddu a'u huwchraddio.

Gwnaethom argymhell bod yn rhaid i'r ystafell ddihalogi gynnwys y canlynol pan gaiff ei hadnewyddu:

- Cypyrddau storio yn hytrach na silffoedd agored
- Llif gwaith gwell
- Lloriau wedi'u selio neu eu gorchuddio yn hytrach na charped
- Ardaloedd cefnfwrdd ar gyfer arwynebeddau glân
- Yn ogystal â sinc golchi dwylo, sicrhau bod dau sinc ar gael i sgwrio a rinsio a bod pob sinc yn cynnwys tapiau lifer.

Gwnaethom argymhell hefyd fod yn rhaid i'r deintyddfeydd gynnwys y cyfleusterau canlynol, pan gânt eu hadnewyddu:

- Lloriau wedi'u selio neu eu gorchuddio. Gwelsom ardaloedd yn y ddwy deintyddfa a oedd yn cynnwys carped a llawr lino
- Bin offer miniog wedi'i osod ar y wal
- Sinciau i gynnwys tapiau lifer a dim plygiau ar sinciau golchi dwylo
- Sicrhau nad oes unrhyw waith pibell yn y golwg ar yr arwynebau gweithio er mwyn glanhau'n effeithiol
- Sicrhau bod sinc golchi dwylo dynodedig ar gael

Gwnaethom argymhell hefyd fod yn rhaid i'r ystafell pelydr-X / OPG gynnwys y canlynol pan gaiff ei hadnewyddu:

- Llawr wedi'i selio neu ei orchuddio yn hytrach na charped.

Roedd gan y practis raglen cynnal a chadw ddyddiol er mwyn gwirio'r offer sterileiddio. Roedd llyfr cofnod ar gael ar gyfer yr awtoclaf⁵ a gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau diogelwch yn cael eu cynnal ar ddechrau a diwedd y dydd. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylai'r practis sicrhau bod yr awtoclaf yn cael ei brofi gan ddefnyddio sribedi TST yng nghylchred cyntaf pob dydd a'i fod yn cofnodi paramedrau pob cylchred mae'n ei berfformio, gan ddangos tystiolaeth fod y cylchred awtoclaf wedi ei gyflawni yn llwyddiannus.

Gwelsom dystiolaeth fod llawer o archwiliadau rheoli heintiau wedi cael eu cynnal gan ddefnyddio adnoddau archwilio cydnabyddedig, gan gynnwys adnodd archwilio Deoniaeth Cymru sy'n cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Gwnaethom gydnabod bod hyn yn enghraifft o arfer da am fod yr archwiliad yn gynhwysfawr. Roedd yr archwiliad rheoli heintiau wedi'i gwblhau a gwelsom dystiolaeth fod y cynllun gweithredu dilynol wedi cael ei roi ar waith.

Roedd gan y practis system i reoli gwastraff. Roedd contractau ar gael ar gyfer gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig). Gwelsom fod yr holl wastraff wedi'i ddioli a'i osod yn y bagiau / cynwysyddion priodol yn unol â'r dull gwaredu cywir. Fodd bynnag, gwelsom fod y bagiau gwastraff clinigol a'r mopiau clinigol yn cael eu storio yn yr ystafell ddihalogi. Tynnwyd sylw rheolwr y practis at ein pryderon ynghylch lleoliad yr eitemau hyn a threfnodd i'r bagiau gwastraff gael eu storio mewn lleoliad diogel a'r mopiau glanhau i gael eu symud o'r ardal ddihalogi ar unwaith.

Roedd polisi rheoli heintiau ar waith, a oedd yn cyfeirio at hylendid dwylo, trin a thrafod a gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel, trefniadau cadw tŷ a glanhau a hyfforddiant perthnasol.

Roedd trefniadau priodol ar waith yn y practis i ymdrin ag anafiadau a achosir gan offer miniog. Gwelsom gofnodion ynghylch statws imiwneiddio Hepatitis B

⁵ Siambr pwysedd yw peiriant awtoclaf a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau drwy ddefnyddio ager dirlawn pwysedd uchel

pob aelod o staff clinigol a oedd yn gweithio yn y practis. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod cleifion a staff yn cael eu hamddiffyn rhag firsau a gludir yn y gwaed.

Yr hyn sydd angen ei wella

Sicrhau bod y deintyddfeydd, yr ystafell ddihalogi a'r ystafell OPG yn cael eu hadnewyddu a'u huwchraddio yn unol â WHTM 01.05.

Sicrhau bod yr awtoclaf yn cael ei brofi gan ddefnyddio stribedi TST yng nghylchred cyntaf y dydd.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis weithdrefnau a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol ymhlith cleifion. Roedd yr holl staff clinigol wedi cael yr hyfforddiant dadebru cardio-anadlol diweddaraf ac roedd gan y practis ddau swyddog cymorth cyntaf penodedig.

Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel mewn man y gellir mynd iddo'n hawdd pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn digwydd yn y practis.

Gwelsom dystiolaeth fod system ar waith i archwilio'r cyffuriau brys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn barod i'w defnyddio. Fodd bod, gwelsom fod y pecyn argyfwng yn cynnwys nodwyddau, chwistrelli a thiwbiau aer wedi dyddio. Gwnaethom argymhell i'r practis eu bod yn cynnal system gadarnach o gofnodi dyddiad dod i ben eitemau caledwedd.

Ymdriniwyd â'n pryderon ynglŷn â'r pecyn argyfwng ar unwaith yn ystod yr arolygiad. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad A.

Yr hyn sydd angen ei wella

Cynnal system gadarnach o gofnodi dyddiad dod i ben offer i'w defnyddio mewn argyfwng.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod y practis wedi cymryd camau i hybu ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg. Roedd polisïau diogelu ar waith i amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd y

polisiau'n cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol ynghyd â siartiau llif manwl a oedd yn hysbysu'r staff am y camau i'w cymryd pe bai mater diogelu yn codi. Gwelsom fod copi o'r gweithdrefnau a manylion cyswllt i'w weld yn yr ystafell staff.

Gwelsom dystiolaeth fod yr holl staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd y practis wedi penodi aelod o staff i arwain materion diogelu, a oedd yn gyfrifol am sicrhau bod y polisi diogelu yn cael ei ddilyn ac sy'n gallu rhoi cyngor ac arweiniad i staff ar faterion diogelu.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn gallu codi unrhyw bryderon sy'n gysylltiedig â gwaith gyda'r perchennog a'u bod yn hyderus y byddai'n ymateb i'r pryderon hynny.

Disgrifiodd y practis y gwiriadau cyn cyflogi a fyddai'n cael eu cynnal mewn perthynas ag unrhyw aelodau newydd o staff cyn iddynt ymuno â'r practis. Roedd hyn yn cynnwys gwirio geirdaon a/neu gynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd⁶ ar staff sy'n briodol i'r gwaith a wneir ganddynt. Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o staff perthnasol yn dal gwiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'u bod wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn y deintyddfeydd a gwelsom eu bod yn cynnwys offer perthnasol i sicrhau diogelwch cleifion. Fodd bynnag, gwelsom ychydig o ddeunydd adferol cyfansawdd wedi dyddio yn nroriau deintyddfa 1. Rydym yn argymhell bod y practis yn cynnal archwiliadau rheolaidd o ddyddiadau dod i ben deunyddiau sy'n cael eu storio mewn droriau yn y deintyddfa a'r ystafell stoc.

Fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad, gwelsom fod angen adnewyddu ac uwchraddio'r deintyddfeydd. Dywedodd y prif ddeintydd wrthym y byddai blaenoriaeth yn cael ei rhoi i adnewyddu pob ardal glinigol os na fyddai cynlluniau ar gyfer yr estyniad yn cael eu cyflawni.

⁶ Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant. Mae'n cymryd lle'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

Roedd yr holl offer radiolegol mewn cyflwr da. Gwelsom dystiolaeth fod trefniadau addas ar waith i ddefnyddio offer radiograffeg (pelydr-x) yn ddiogel ac roedd y practis yn cynnal archwiliadau rheolaidd i sicrhau ansawdd y delweddau pelydr-x. Fodd bynnag, gwnaethom gynghori y dylai'r ceblau trydanol yn yr ystafell OPG gael eu clymu gyda'i gilydd er mwyn atal y perygl o faglu a gwnaeth y rheolwr drefnu hyn.

Gwelsom fod angen i'r prif ddeintydd adnewyddu'r hyfforddiant ar ymbelydredd ïoneiddio cyn bo hir. Cawsom sicrwydd ar lafar y byddai'r hyfforddiant yn cael ei adnewyddu ar unwaith ac mae cadarnhad wedi cael ei anfon ymlaen i AGIC ers hynny.

Gwelsom fod y practis wedi defnyddio Adnodd Gwella Ansawdd Deoniaeth Cymru ar gyfer ymbelydredd ïoneiddio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Cynnal archwiliadau rheolaidd o ddyddiadau dod i ben deunyddiau sy'n cael eu storio mewn droriau yn y deintyddfeydd a'r ystafell stoc.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Roeddem yn gallu gweld bod archwiliadau wedi cael eu cwblhau a/neu eu trefnu gan y practis, megis; croes-heintio, ansawdd pelydr-X, iechyd a diogelwch, cofnodion y cleifion, a gwastraff clinigol. Cawsom wybod hefyd fod cynlluniau ar waith i gwblhau'r archwiliad Integreiddio Cynlluniau Rhoi'r Gorau i Smygu CAPRO⁷. Gwnaethom gynghori'r practis i sicrhau bod yr archwiliadau hyn yn cael eu cynnal yn flynyddol.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

⁷ Swyddfa Archwiliadau Clinigol ac Adolygiadau gan Gymheriaid (Clinical Audit Peer Review Office)

Wrth drafod â'r staff, dywedwyd wrthym fod staff clinigol wedi cymryd rhan mewn adolygiadau cymheiriaid sy'n cyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a roddir i gleifion.

Cadarnhaodd y practis eu bod yn ystyried defnyddio adnodd datblygu practisau Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth Deoniaeth Cymru hefyd. Mae'r Matrics Aeddfedrwydd yn adnodd datblygu tîm ar gyfer practisau deintyddol sy'n annog y tîm i ganolbwyntio ar arfer gorau, ansawdd a diogelwch, gofynion deddfwriaethol a sut mae'n gweithio.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n briodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Er enghraifft, roedd copiau wrth gefn yn cael eu cadw o bob ffeil electronig yn rheolaidd ac roedd mynediad at sgriniau cyfrifiaduron yn ddiogel ac yn gudd. Roedd polisi diogelu data ar waith er mwyn hysbysu staff o'r hyn sy'n ofynnol iddynt ei wneud

Cadw cofnodion

Adolygwyd sampl o gofnodion cleifion. Ar y cyfan, roedd tystiolaeth bod y practis yn cadw cofnodion clinigol o ansawdd da iawn, sy'n dangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant cleifion.

Ym mhob achos, roedd y cofnodion a adolygwyd gennym yn rhai unigoleddig ar gyfer pob claf ac yn cynnwys dynodyddion cleifion priodol, hanes deintyddol blaenorol a rheswm dros yr apwyntiad. Roedd y cofnodion yn glir iawn, yn ddarllenadwy ac o ansawdd da iawn.

Gwnaethom drafod gyda'r prif ddeintydd yr angen i gofnodi'r cyfiawnhad dros bob pelydr-X a chofnodi'r asesiadau risg ar gyfer pydredd dannedd, cyflwr periondontal, ac ati, a chytunodd y prif ddeintydd i roi hyn ar waith ar unwaith.

Yr hyn sydd angen ei wella

Cofnodi'r cyfiawnhad dros bob pelydr-X a chofnodi'r asesiad risg.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Mae gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Roedd y staff yn ymddangos yn hapus iawn yn eu rolau ac roeddent yn cyflawni eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau'n fedrus.

Gwelsom fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn nifer o feysydd a oedd yn helpu i sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf i'w helpu yn eu gwaith.

Roedd amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Prif ddeintydd / perchennog Practis Deintyddol Stryd yr Eglwys yw'r unigolyn cyfrifol enwebedig⁸. Y rheolwr cofrestredig yw rheolwr y practis.⁹

Mae gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd.

⁸ Ystyr "unigolyn cyfrifol" yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall y sefydliad sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y caiff practis deintyddol preifat ei reoli (Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017)

⁹ Ystyr "rheolwr cofrestredig" yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 fel rheolwr practis deintyddol preifat

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus i godi unrhyw faterion neu bryderon yn uniongyrchol â rheolwr y practis neu'r prif ddeintydd / y perchennog ac roeddent yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda yn eu rolau. Gan fod y rhan fwyaf o'r staff wedi gweithio gyda'i gilydd ers peth amser, roedd ganddynt berthynas dda â'i gilydd.

Gwelsom fod y staff yn glir ac yn wybodus am eu rolau a'u cyfrifoldebau a'u bod yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon dda i'w cleifion.

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ar waith.

Rhoddwyd copi o'r Datganiad o Ddiben i ni a oedd yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemnedd priodol ar waith ar eu cyfer. Roedd tystysgrif cofrestru AGIC i'w gweld yn glir wrth y dderbynfa. Roedd gan y practis dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gyfredol hefyd.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Nodwyd gennym fod gan yr aelodau o'r staff gontract cyflogaeth a oedd yn cael ei gadw yn ffeiliau'r staff. Gwelsom hefyd fod gan y practis raglen sefydlu, a oedd yn cynnwys hyfforddiant a pholisiau a gweithdrefnau perthnasol.

Gwelsom dystiolaeth fod y practis yn bwriadu cynnal arfarniadau staff gyda'r staff.

Gwelsom dystysgrifau yn dangos tystiolaeth bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau ac a oedd yn bodloni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

Dywedodd y staff wrthym fod y practis yn cynnal cyfarfodydd tîm rheolaidd a gwelsom fod cofnodion manwl yn cael eu cadw.

Mae Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 yn ei gwneud yn ofynnol, ar adeg cofrestru, i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gyhoeddwyd o fewn y tair blynedd flaenorol. Fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad, gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau clirio'r DBS wedi'u cynnal ar gyfer pob aelod o staff clinigol.

Cadarnhaodd y darparwr cofrestredig ei fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau a'i rwymedigaethau o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle gwnaethom gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Amlygiad Meddygol\) 2000](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelsom fod y pecyn argyfwng yn cynnwys chwistrelli a nodwyddau ar gyfer roi adrenalin a oedd wedi dyddio. Gwelsom hefyd fod yr holl diwbiau aer (meintiau 0,1,2,3 a 4) wedi dyddio.	Roedd hyn yn golygu y byddai plant ac oedolion mewn perygl pe bai argyfwng.	Tynnwyd sylw'r staff at hyn, a threfnwyd i'r eitemau gael eu prynu ar unwaith.	Archebodd y staff yr eitemau ar unwaith ar ddiwrnod ein harolygiad i'w dosbarthu drannoeth.

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Stryd yr Eglwys

Dyddiad arolygu: 13 Tachwedd 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynglŷn â diffyg cydymffurfio sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw feysydd uniongyrchol yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Stryd yr Eglwys

Dyddiad arolygu: 13 Tachwedd 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Dd/G				
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Sicrhau bod pob deintyddfa, yr ystafell ddihalogi a'r ystafell OPG yn cael eu hadnewyddu a'u huwchraddio yn unol â WHTM 01.05.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi, WHTM 01.05 Pennod 5 a 6	Adnewyddu'r ddeintyddfa, yr ystafell ddihalogi a'r ystafell OPG yn unol â'r WHTM 01:05	Simon Gallier	Ebrill 19

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Sicrhau bod yr awtoclaf yn cael ei brofi gan ddefnyddio stribedi TST yng nghylchred cyntaf y dydd.	WHTM 01.05, Pennod 4, adran 4.18	Caiff stribedi TST eu defnyddio'n ddyddiol yng nghylchred cyntaf y diwrnod gan bob aelod o'r tîm sy'n cynnal gwaith dihalogi	Gemma Andrew	
Cynnal system gadarnach o gofnodi dyddiad dod i ben offer i'w defnyddio mewn argyfwng.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau; PDR 8 (d), 31	Yn ogystal â gwiriadau wythnosol a gofnodir, mae archwiliad bob 6 mis ar waith	Gemma Andrew	
Cynnal archwiliadau rheolaidd o ddyddiadau dod i ben deunyddiau sy'n cael eu storio mewn droriau yn y deintyddfeydd a'r ystafell stoc.	2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol; PDR 8 (d), 31)	Caiff yr holl stoc ei wirio'n wythnosol gan y nyrsys ac mae archwiliadau rheolaidd ar waith er mwyn sicrhau y ceir gwared ar unrhyw ddeunyddiau sydd wedi dyddio mewn ffordd addas a'i gofnodi	Gemma Andrew	
Cofnodi'r cyfiawnhad dros bob pelydr-X a chofnodi'r asesiad risg.	3.5 Cadw cofnodion; Canllaw IRMER 2017 & FGDP	Mae cyfiawnhad dros bob pelydr-x ac asesiad risg yn cael eu recordio yn unol â'r canllawiau perthnasol o IR(ME)R17 a FGDP.	Simon Gallier	
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Dd/G				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): **Gemma Andrew**

Teitl swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 9.1.19